| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **8fed Hydref 2015** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorwydd Mandy Williams-Davies** |
| **TEITL** | **Taflen Benderfyniad Brys Aelod Cabinet** |
| **AMCAN** | **Er gwybodaeth** |
| **AWDUR** | **Cynghorwydd Mandy Williams-Davies** |
| **SWYDDOG CYSYLLTIOL** | **Llyr Jones, Uwch Reolwr Economi a Chymuned** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Fe gafodd adroddiad Ardaloedd Gwella Busnes (AGB) Bangor a Chaernarfon ei gyflwyno i'r Cabinet ar 14fed Gorffennaf 2015. Bryd hynny, bu i'r Cabinet penderfynnu :

*i.* *Cymeradwyo'r bwriad o gynnal pleidlais ymysg busnesau canol dinas Bangor a chanol tref Caernarfon ar y bwriad o sefydlu Ardal Gwella Busnes o fewn y ddwy ardal*

*ii.* *Pan agorir y bleidlias, cytunwyd i ddirprwyo natur y bleidlais i'r Aelod Cabinet Economi mewn cysylltiad â swyddogion perthnasol.*

1.2 Yn dilyn penderfyniad y Cabinet, fe gyhoeddwyd rhybudd o'r bwriad i gynnal pleidlais, ac fe drefnwyd i ddosbarthu pleidleisiau i eiddo yn talu trethi annomestig o fewn ffiniau'r AGB arfaethedig.

## 2. TAFLEN BENDERFYNIAD BRYS

2.1 Mae Cyngor Gwynedd (ar y cyd a'r sector fusnes yn lleol yn y ddwy ganolfan) wedi bod yn cyd-weithio ar y cynigion AGB. Mae'r weledigaeth i'r sector fusnes fod yn arwain ar gynlluniau adfywio o fewn eu trefi i'r dyfodol yn cael ei groesawy ac byddai'r AGB yn cynnig gyfrwng ar gyfer gwneud hyn. Serch hynny, cyn gwneud penderfyniad roeddwn yn awyddus i ystyried y gefnogaeth i'r cynllun, ac yn wir ymrwymiad y gymuned fusnes i'w gweithredu. Yn sgil gweithgareddau yn ystod y cyfnod yn arwain at y bleidias, fe ddaeth brwdfrydedd y sector fusnes at sefydlu AGM yn amlwg.

2.2 Cafwyd peth llithriad yn yr amserlen yn sgil hyn, ac hefyd wrth gynnal ymgynghoriadau mewnol. Yn wir, roedd y llithriad yn golygu nad oedd modd cyhoeddi'r daflen yn y ffordd arferol oherwydd y byddai amseriad galw i mewn posib yn cael ardrawiad ar y gweithrediad.

2.3 O ganlyniad, bu'n ofynnol i wneud penderfyniad brys yn unol â rhan 7.25.2 o'r Cyfansoddiad y dylid ei heithrio o'r drefn galw i mewn er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn medru gwneud penderfyniad oedd yn weithredol mewn pryd ar gyfer cyflwyno pleidleisiau cyn y dyddiad cau (Medi 24). Mae'r drefn yma yn caniatau gwneud penderfyniad mewn gyda cyd syniad Cadeirydd y Cyngor ond mae'n ofynnol adrodd ar hyn i'r Cyngor nesaf.

2.4 Derbyniwyd cytundeb Cadeirydd y Cyngor ei fod yn cytuno ei fod yn fater brys a bod y penderfyniad a gynnigir yn un rhesymol o dan yr amgylchiadau.

2.5 Mae copi o'r Daflen Benderfyniad wedi ei gynnwys fel Atodiad 1.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 I dderbyn a nodi'r adroddiad